**Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales**
**Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee**
**Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg | Inquiry into Welsh in Education Strategic Plans**

**WESP 27**
**Ymateb gan : Carys Swain**
**Response from : Carys Swain**

## Cwestiwn 1

| |
|---|
| Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y deilliannau a'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru? |
| I raddau ond ar y cyfan nid yw'r cyfraniad yn ddigonol ar gyfer yr hyn sydd ei angen. |
| Os ydych o'r farn nad yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu ddigon, sut y gellir datrys hyn? |
| Mae angen sicrhau:<br>• nad yw'r awdurdodau yn trin y Gymraeg yn llai ffurfiol na'r Saesneg<br>• bod mynediad i addysg Gymraeg yr un modd hawdd ag yw e i addysg cyfrwng Saesneg<br>• Bod cynllunio hir dymor yn ei le, a bo'r awdurdod yn cadw at eu gair wrth ymrywmo I unrhyw gynllun |

### Cwestiwn 2

| |
|---|
| Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol mewn awdurdodau lleol, neu a allant wneud hynny (er enghraifft, sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn y galw am addysg Gymraeg)? |
| Nac ydyn |
| Os ydych o'r farn nad yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau newidiadau, neu na allant wneud hynny, sut y gellir datrys hyn? |
| Efallai y gallai'r Llywodraeth gymryd rhan mwy blaenllaw yn y cyfarfodydd? – e.e. sicrhau fod gweithiwr sifil yn bresennol yn y cyfarfodydd a bod rheolau/canllawiau penodol, fel na bo modd i'r awdurodod esgeuluso ac anwybyddu eu cyfrifoldebau o ran darparu addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai presenoldeb o'r Llywodraeth yn sicr o gael mwy o effaith nag unrhyw adroddiad |

| |
|---|
| ar bapur. |

## Cwestiwn 3

| Beth yw eich barn ar y trefniadau ar gyfer pennu targedau; monitro; adolygu; cyflwyno adroddiadau; cymeradwyo a chydymffurfio â gofynion Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (a rôl awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn)? |
|---|
| Diffyg cysondeb yn gyffredinol. |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? |
| • Cynnig addysg ddwyieithog gyflawn i bob plentyn o oed meithrin hyd at y cyfnod Sylfaen<br>• Cyflwyno'r Gymraeg fel cyfrwng mewn rhai pynciau mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg – oed 7 –11<br>• Parhau i gynnig rhai pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion uwchradd Saesneg (h.y. a hynny'n orfodol i bawb) |

### Cwestiwn 4

| Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn amlygu rhyngweithio effeithiol rhwng strategaeth addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth a pholisïau perthnasol eraill*?<br>(*er enghraifft, polisi cludiant ysgolion; rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain; y datganiad polisi – Iaith fyw:iaith byw; Dechrau'n Deg; polisi cynllunio)? |
|---|
| Nac ydyn |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? |
| Sicrhau mwy o fewnbwn uniongyrchol gan y Llywodraeth ym mhob cyfarfod |

### Cwestiwn 5

| Yn eich barn chi, a yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg i bob disgybl, gan gynnwys er enghraifft, disgyblion cynradd / uwchradd; plant o gartrefi incwm isel? |
|---|
| Nac ydyn |
| Os ydych o'r farn nad yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg, sut y gellir datrys hyn? |
| Does dim digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Sir rwy'n byw ynddi i scrhau |

| |
|---|
| canlyniadau teg. |

## Cwestiwn 6

| Os byddai'n rhaid ichi wneud un argymhelliad i Lywodraeth Cymru o'r holl bwyntiau rydych wedi'u nodi, beth fyddai'r argymhelliad hwnnw? |
|---|
| Sicrhau mwy o fewnbwn uniongyrchol gan y Llywodraeth ym mhob cyfarfod |

## Cwestiwn 7

| A oes gennych unrhyw sylwadau neu faterion eraill yr hoffech eu codi na soniwyd amdanynt yn y cwestiynau penodol? |
|---|
| |